# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf

DRAFT

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

DRAFT

# Cyflwyniad gan yr Arweinydd

Ar ran Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin, rwy'n falch o gyflwyno ein cynllun ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Er bod llywodraeth leol yn wynebu amser ansicr o ganlyniad i'r toriadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cannoedd o wasanaethau o ddydd i ddydd i drigolion ac ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, o ganlyniad i gynllunio gofalus dros y blynyddoedd mwy diweddar, rwyf yn bendant o'r farn fod y Cyngor mewn sefyllfa arbennig i ddatblygu ymhellach a sicrhau ffyniant y Sir i'r dyfodol. Fel Bwrdd Gweithredol rydym wedi nodi nifer o brosiectau a rhaglenni allweddol y byddwn yn ymdrechu i'w cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Drwy gyflwyno'r prosiectau a'r rhaglenni hyn credwn y gallwn gyfrannu at sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r lle gorau i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. Bwriad ein cynllun uchelgeisiol yw mynd ati'n gyson i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y Sir a thrwyddo byddwn yn sicrhau bod ein trigolion, ein cymunedau, ein sefydliadau a'n busnesau yn cael eu cefnogi a'u galluogi i ddatblygu a ffynnu er budd ein Sir. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid perthnasol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, lle bo hynny'n briodol ac er lles pennaf Sir Gaerfyrddin.

Mae Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor yn cael ei datblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd yn cynnwys prif brosiectau a rhaglenni y cynllun hwn. Edrychaf ymlaen at wireddu'r cyfleoedd a gyflwynir gan y cynllun hwn.

Y Cyng. Emlyn Dole

DRAFT

# Aelodau Bwrdd Gweithredol
# Cyngor Sir Caerfyrddin



**Cynghorydd Emlyn Dole,**
Arweinydd



**Cynghorydd Mair Stephens,**
Dirprwy Arweinydd



**Cynghorydd Cefin Campbell,**
Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Gymunedau a Materion Gwledig



**Cynghorydd David Jenkins,**
Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Adnoddau



**Cynghorydd Linda Evans,** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Dai



**Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths,** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth



**Cynghorydd Glynog Davies,** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Addysg a Phlant



**Cynghorydd Philip Hughes,** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Iechyd Cyhoeddus



**Cynghorydd Hazel Evans,** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros yr Amgylchedd



**Cynghorydd Jane Tremlett,** Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

# Sir Gaerfyrddin fel Prifddinas Beicio Cymru



DRAFT

# Yr Amgylchedd

Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd cyfoethog ac amrywiol y bydd y Cyngor yn ymdrechu i'w warchod a'i wella er budd trigolion ac ymwelwyr â'r Sir. Mae seilwaith priffyrdd y Sir yn hanfodol er mwyn cludo pobl a nwyddau ac mae ei gynnal a'i gadw a'i ddatblygu yn allweddol i gefnogi adfywio. Mae'r ymrwymiadau yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn hanfodol i wella'r ddarpariaeth hon. Mae rheoli gwastraff yn effeithiol yn rhan allweddol o wella ein hamgylchedd a, thrwy weithio gyda thrigolion, byddwn yn ymdrechu i wella ein cyfraddau ail-gylchu ymhellach, o'r hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni. Mae datblygu a defnyddio tir mewn ardaloedd trefol a gwledig, mewn modd sy'n ateb gofynion y cyhoedd, hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau gwydnwch a ffyniant i'r dyfodol o safbwynt cymunedol ac amgylcheddol. Mae datblygu cyfleoedd hamdden a llesiant yn hanfodol ac rydym yn awyddus i sefydlu Sir Gaerfyrddin fel Prifddinas Beicio Cymru.

**Yn ogystal â'r gwasanaethau presennol ein bwriad yw:**

## Priffyrdd a Thrafnidiaeth

1. Sefydlu Sir Gaerfyrddin fel Prifddinas Beicio Cymru drwy gyflawni prosiectau allweddol sef Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, cwrs Ffordd Gaeedig Pen-bre yn ogystal â Felodrom Caerfyrddin.
2. Cyflawni'r ymrwymiadau o ran y Cynllun Trafnidiaeth Lleol i wella'r seilwaith ffyrdd gyda gwelliannau yn y llefydd hyn:
   a. Gorllewin Caerfyrddin;
   b. Ffordd gyswllt Cross Hands;
   c. Tir-y-Dail, Rhydaman.
3. Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu Ffordd Ddosbarthu Rhydaman ymhellach.
4. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith priffyrdd y Sir er mwyn gwella ansawdd yr aer yn enwedig yn Llandeilo.
5. Parhau i adolygu fflyd y Cyngor i sicrhau bod gofynion y gwasanaeth yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.
6. Gweithio tuag at wella integreiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd yn Sir Gaerfyrddin er mwyn cynnig gwasanaeth gwell i ateb gofynion ein trigolion ac i wella'r seilwaith ar gyfer defnyddio ceir trydan yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
7. Lobïo Llywodraeth Cymru i gynyddu'r arian sydd ar gael i ddatblygu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan sicrhau fod mwy o gymunedau yn gallu cael palmentydd a llwybrau cerdded newydd.
8. Adolygu a datblygu rhaglen cynnal a chadw, lle bo'r angen, i wella cyflwr priffyrdd presennol ar draws y Sir.
9. Ystyried dichonoldeb datblygu parc/iau parcio lori dros nos yn y Sir.

DRAFT

## Eiddo

10. Cyflawni cam 2 o ddatblygiad Gweithdai Glanaman i ddarparu cyfleoedd gweithdai gwell.
11. Cynnal adolygiad i ystyried y dewisiadau o ran darparu depos yn y modd mwyaf effeithiol ledled y sir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer rhannu cyfleusterau gyda phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus.
12. Gweithredu dull Gweithio Ystwyth yn llawn ledled y Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n stoc.
13. Gweithio tuag at leihau ôl troed carbon y Cyngor trwy gynyddu defnyddio ynni o ffynonellau gwyrdd neu adnewyddadwy.
14. Ystyried opsiynau er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o ystad ffermydd y Cyngor i gefnogi mentrau ffermio fforddiadwy.
15. Sicrhau fod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'i holl asedau cymunedol a lle bydd yn angenrheidiol ac yn briodol trosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill.

## Gwastraff ac Amgylcheddol

16. Adolygu a sefydlu cyfleusterau i drin gwastraff lleol i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r targedau ailgylchu cenedlaethol a gwella perfformiad ailgylchu y Sir ymhellach.
17. Adolygu gwastraff gwyrdd i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol i drigolion.
18. Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i dreialu trefniadau rheoli sbwriel ledled Llanelli gyda sylw penodol i ganol y dref a'r ffyrdd sy'n dynesu ati, gyda' golwg ar gyflwyno hyn ar draws y Sir gyfan.
19. Datblygu a gweithredu cynllun cynhwysfawr i ddefnyddio'n llawn asedau'r tŷ a'r parc ym Mharc Howard gyda'r nod o'i wneud yn lleoliad ar gyfer gwobr y Faner Werdd ac ystyried lleoliadau eraill ar draws y Sir a allai elwa o fod yn lleoliad y Faner Werdd.

## Cynllunio

20. Hwyluso'r ymgynghoriad mwyaf eang posib â'r cyhoedd a rhanddeiliaid â diddordeb wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, sydd i'w weithredu erbyn 2021. Sicrhau fod y CDLl newydd yn gynllun lleol addas i'r diben, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, sy'n darparu ar gyfer anghenion ein Sir a'i chymunedau, yn cydymffurfio â dyheadau ein pobl ac yn sicrhau datblygu cynaliadwy na fydd yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol.
21. Adolygu'r system cyfraniadau A106 er mwyn ei gwneud yn fwy tryloyw ac i gefnogi seilwaith cymunedol yn well.
22. Adolygu Polisi Adeiladau Gwledig y Cyngor.
23. Hyrwyddo strategaeth coed i wella'r amgylchedd a chymryd camau i leihau effaith ar lygredd aer a sŵn yn ein hardaloedd mwy poblog.
24. Gweithio gyda rhanddeiliaid i wella'r gallu i ymdrin â charthffosiaeth yn y Sir trwy ddatblygu cynlluniau priodol.

D R A F T

# Cyflawni gofynion allweddol o ran gofal plant a chwarae



DRAFT

# Addysg a Gwasanaethau Plant

Mae dros 27,000 o ddisgyblion wedi eu cofrestru yn ysgolion y Sir. Mae gan y Cyngor rôl allweddol i ddarparu' gwasanaethau o'r ansawdd uchaf posib i blant, pobl ifanc, teuluoedd a dysgwyr mewn ffyrdd sy'n bodloni eu gofynion penodol orau. Rydym eisiau cynorthwyo ein pobl ifanc i gyflawni eu potensial dysgu a byddwn bob amser yn ymdrechu i gynnig y safonau uchaf posib o addysg gyfun, yn gynyddol mewn awyrgylch modern gyda'r offer priodol i alluogi dysgu yn y 21ain ganrif. Rydym hefyd eisiau galluogi'r nifer fwyaf posib o ddisgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn gweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed trwy weithio gyda'r teulu cyfan i ddelio ag unrhyw faterion.

### Yn ogystal â'r gwasanaethau presennol ein bwriad yw:

25. Cyflawni'r holl ymrwymiadau Band A a nodwyd yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg, a hynny erbyn 2019 gan gefnogi ein plant a'n pobl ifanc i dderbyn addysg gyda'r gorau yn y byd mewn awyrgylch diogel ac ysgogol. Mae hyn yn cynnwys darparu campysau newydd ar gyfer Ysgol Penrhos ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant.
26. Cyflwyno buddsoddiad pellach o £129 miliwn rhwng 2019 a 2024 o dan y Rhaglen Moderneiddio Addysg.
27. Ystyried darpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Rhydaman, Llandeilo a Llanymddyfri.
28. Parhau i wella deilliannau ein holl ddisgyblion gyda phwyslais benodol ar wella cyflawniad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal.
29. Parhau i gynyddu'r gyfran o ysgolion sy'n cyflawni categori Gwyrdd neu Melyn yn y System Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol.
30. Sicrhau fod y defnydd gorau posib yn cael ei wneud o gyfleusterau ysgolion i gefnogi gweithgarwch cymunedol ehangach.
31. Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir i'w symud ar hyd continwwm y Gymraeg a hefyd sicrhau fod disgyblion unigol mewn ysgolion perthnasol yn cael cynnig cyfleoedd i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg trwy gydol pob cyfnod allweddol.
32. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i ofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw er mwyn cefnogi cyflawni deilliannau addysgol gwell, gan gyfeirio'n benodol at y gofynion ar gyfer ysgolion gwledig.
33. Ystyried yr opsiynau ar gyfer defnyddio Model Buddsoddi Cydfuddiannol (Mutual Investment Model) Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r seilwaith addysg ymhellach trwy fuddsoddiad cyfalaf.
34. Drwy gyfrwng Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sicrhau bod yna ddewislen o gyfleoedd galwedigaethol yn cyd-fynd â chwricwlwm addysgol y Cyngor i fynd i'r afael â'r sgiliau lleol ar gyfer byd gwaith a'r llwybrau lleol i waith, yn ogystal â datblygu llwybrau dysgu gyda Choleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
35. Adolygu ac annog cyfrannu at lywodraethu ysgolion.
36. Adolygu'r holl ddyddiadau derbyn disgyblion ac ystod oedran ar draws y Sir.
37. Parhau i ddatblygu cymorth i atal pobl ifanc rhag mynd yn rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).
38. Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhagor o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau yn y Sir.
39. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i ofynion y rhaglen trawsnewid system Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw. Mae'r rhaglen hon yn ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc trwy ddatblygu system unedig i gefnogi dysgwyr gydag anghenion ychwanegol rhwng 0 a 25 mlwydd oed.
40. Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rôl Rhianta Corfforaethol trwy sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn.
41. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn darparu'r gofynion allweddol o ran gofal plant a chwarae gan symud tuag at gyflwyno 30 awr o addysg a gofal am ddim i rieni sy'n gweithio.

42. Adolygu'r gwasanaethau cymorth presennol o ran ymddygiad arbenigol yn y Sir gyda'r bwriad o ddatganoli a dod â gwasanaethau cymorth i mewn i'r ddarpariaeth brif ffrwd erbyn 2021.

43. Gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu ein hymagwedd tuag at ymgysylltu a chyfranogiad ym maes plant a phobl ifanc gan sicrhau y gwrandewir ar eu llais fel rhan o ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus.

DRAFT

# Cynyddu nifer y tai fforddiadwy



DRAFT

# Cymunedau

Rydym eisiau sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf heini ac iach yn y Deyrnas Unedig. Mae gan y Cyngor rôl allweddol o ran darparu cymorth i drigolion er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, o gyfleoedd hamdden yn ein cyfleusterau a mannau agored i sicrhau fod tai'r Cyngor yn cael eu cynnal hyd at safon uchel a chefnogi pobl agored i niwed a phobl hŷn pan fo angen. Rydym hefyd eisiau cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn y Sir ac rydym yn bwriadu datblygu 1,000 o dai dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn yn gweithio i sicrhau fod yr holl tdrigolion sy'n derbyn cymorth yn cael eu trin â pharch ac urddas a'u galluogi nhw i barhau i gadw rheolaeth ar eu bywydau, a lle bo'n bosib, i gadw rheolaeth ar yr atebion sy'n gwireddu eu dyheadau orau a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Byddwn yn gweithio tuag at gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain, lle bo'n briodol, cyhyd â phosib. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau fod ein trigolion yn derbyn y cyngor, y cymorth a'r ddarpariaeth briodol pan fydd eu hangen.

**Yn ogystal â'r gwasanaethau presennol ein bwriad yw:**

## Tai

44. Datblygu 1,000 o dai fforddiadwy yn seiliedig ar gysyniad lleoliaeth trwy sicrhau bod tai gwag yn cael eu ddefnyddio eto ac adeiladu tai newydd.
45. Sefydlu Cwmni Masnachu Tai Lleol i gynyddu'n rhagor faint o dai fforddiadwy sydd yn y Sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
46. Cyflwyno rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion.
47. Adolygu'r trefniadau ar gyfer tai cymdeithasol yn Heol yr Orsaf, Llanelli.
48. Cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer holl eiddo'r Cyngor.
49. Cefnogi holl denantiaid y Cyngor trwy Ddiwygio Lles wrth i'r newidiadau gael eu cyflwyno.
50. Datblygu Strategaeth Digartrefedd i sicrhau fod trigolion agored i niwed yn cael eu cefnogi'n briodol.
51. Datblygu dulliau ymgysylltu â thenantiaid y Cyngor ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at ddarpariaeth i'r dyfodol.

## Gofal Cymdeithasol

52. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, gan gynnwys:
    a. datblygu mynediad 24 awr i wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Ystyrir hefyd yr opsiynau ar gyfer sefydlu Cwmni Masnachu o dan yr Awdurdod Lleol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
    b. cyflwyno cyllideb ar y cyd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd ar gyfer gofal preswyl;
    c. sefydlu cyd-bwyllgor rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gyda phartneriaid perthnasol.
53. Parhau i wella'r ddarpariaeth o ran cyfleoedd dydd ar gyfer pobl hŷn ledled y Sir.
54. Asesu'r trefniadau o ran gofal preswyl yn ardal Llanelli er mwyn sicrhau darpariaeth breswyl briodol yn yr ardal.
55. Cynnal darpariaeth gadarn a chynaliadwy yn fewnol i'r Cyngor ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl.
56. Cryfhau ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith y defnyddiwyr gwasanaeth.
57. Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a darparwyr trydydd sector i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth gofal iechyd meddwl priodol ar gael.
58. Darparu cymorth i ofalwyr, a gofalwyr ifanc yn benodol, er mwyn eu galluogi i barhau i ddarparu gofal amhrisiadwy i'w teulu a'u ffrindiau sydd mewn angen.

59. Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl agored i niwe a hŷn gymdeithasu er mwyn lleihau unigrwydd.
60. Parhau i gefnogi trigolion y mae dementia yn effeithio arnynt a chefnogi datblygu mwy o gymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia ar draws y Sir.

## Hamdden

61. Buddsoddi yn narpariaeth y Sir o ran canolfannau hamdden drwy ddatblygu cyfleuster newydd yn Llanelli fel rhan o'r Pentref Llesiant.
62. Datblygu maes 3G newydd a gwell cyfleusterau parcio yn Rhydaman, a gwelliannau i'r trac yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin.
63. Darparu gwasanaeth archifau a storio newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
64. Cyflawni cynllun trawsnewid ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o ran Amgueddfeydd yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili, Parc Howard, Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli ac Amgueddfa Cyflymder Pentywyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr yn ogystal â chynnal cysylltiadau ag amgueddfeydd annibynnol yn y Sir a'u hyrwyddo.
65. Cychwyn ar gynllun trawsnewid yr amgueddfeydd drwy waith ailddatblygu gwerth £1.2 miliwn yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili.
66. Adolygu ac ailddatblygu darpariaeth y Cyngor o ran gwasanaethau theatr.
67. Gwella a datblygu'r seilwaith a'r cyfleusterau ym Mharc Gwledig Pen-bre i'w alluogi i fod yn gyfleuster o'r radd flaenaf i drigolion ac ymwelwyr.
68. Gweithio gyda sefydliadau cymunedol i wella'r mynediad i'r rhwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffylau a geir ledled y Sir.
69. Cyflawni rhaglen gwerth £2 filiwn i ailddatblygu Harbwr Porth Tywyn.
70. Dathlu a hyrwyddo llwyddiannau ac amrywiaeth gyfoethog Sir Gaerfyrddin ym maes diwylliant a chwaraeon.
71. Gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau cymunedol eraill i geisio ffynonellau cyllid i fuddsoddi mewn uwchraddio meysydd chwarae lleol.

DRAFT

# Cyflawni Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli



# Adfywio a Datblygu

Adfywio yw prif flaenoriaeth y Cyngor. Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i wella'n sylweddol ffyniant y Sir. Ochr yn ochr â'r rhaglen sylweddol hon bydd y Cyngor hefyd yn ymgymryd â nifer o ddatblygiadau yn y sir sy'n canolbwyntio ar ardaloedd gwledig a threfi marchnad. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol iawn o'i rôl fel arweinydd cymunedol a bydd yn ymrwymo i ddatblygu partneriaethau effeithiol a sicrhau ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid sy'n gweithio er lles Sir Gaerfyrddin. Rydym yn anelu at greu Cyngor sy'n well byth ac sy'n gweithio dros drigolion y Sir hyd eithaf ei allu.

**Yn ogystal â'r gwasanaethau presennol ein bwriad yw:**

## Adfywio

72. Sicrhau bod y Sir yn elwa'n llwyr o'r cyfleoedd a grëir yn sgil y buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a ddaw o ganlyniad i Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gan gynnwys:
    a. penodi partner datblygu ar gyfer cyflawni Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli, sef prosiect gwerth mwy na £200 miliwn;
    b. cyflawni'r Fenter Sgiliau a Thalentau, gwerth £30 miliwn;
    c. cefnogi'r gwaith o ddarparu canolfan Yr Egin, gwerth £24 miliwn;
    ch. rheoli Swyddfa Ranbarthol y Fargen Ddinesig a sefydlu Cyd-Bwyllgor Rhanbarthol.
73. Cyflawni'r Trawsnewidiadau: cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys:
    a. datblygiadau canol tref yn Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin;
    b. sefydlu menter adfywio i ganolbwyntio ar ddatblygu trefi marchnad y Sir;
    c. datblygu Llain Arfordirol Sir Gaerfyrddin ymhellach, Prif Gynllun Pentywyn a datblygu Prif Gynllun Adfywio ar gyfer Penrhyn Pen-bre;
    ch. datblygu Parc Bwyd a Pharth Twf Cross Hands ymhellach;

d. datblygu safleoedd cyflogaeth lleol ledled y Sir;

dd. darparu Cronfa Datblygu Eiddo gwerth £8.6 miliwn (£3 miliwn gan y Cyngor ac oddeutu £5.6 miliwn o fuddsoddiad sector preifat);

e. darparu Cronfa Mentrau Gwledig gwerth £4.3 filiwn (£2 filiwn gan y Cyngor ac oddeutu £2.3 miliwn o fuddsoddiad sector preifat).

74. Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag anawsterau o ran mynediad i fand eang cyflym iawn a signal ffôn symudol yn y Sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
75. Cyflawni prosiect peilot yn ward Tyisha i ddatblygu ffyrdd o fynd i'r afael â thlodi yn yr ardal.
76. Sefydlu Grŵp Gorchwyl i ystyried y materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin ac i nodi camau y gall y Cyngor eu cymryd i fynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill.
77. Rhoi ystyriaeth i gyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sefydlu Bargen Wledig i ganolbwyntio ar adfywio gwledig.
78. Datblygu rhaglen i gefnogi busnesau bach ledled y Sir.
79. Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei stoc a'i asedau i hwyluso datblygiad economaidd y Sir.

DRAFT

## Datblygu

80. Gweithio gyda'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r ystod o wasanaethau cymorth a ddarperir yn y Sir ar draws nifer o feysydd gwasanaeth ynghyd â datblygu cyfleoedd gwirfoddoli yn y Sir ymhellach.
81. Cynyddu'r ymwneud a'r gwaith rhwng y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.
82. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i'r materion allweddol sy'n cyfrannu at dlodi yn y Sir gan sicrhau bod cynlluniau ymyrraeth penodol, megis Dechrau'n Deg a'r hyn sy'n dilyn Cymunedau yn Gyntaf, yn ymateb i'r angen.
83. Ymestyn y model Hwb, a ddatblygwyd yn Llanelli, i Rydaman a Chaerfyrddin gan wneud gwasanaethau cymorth rheng flaen yn fwy hygyrch i drigolion.
84. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb ac yn cynrychioli buddiannau cymunedau Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i'r gofynion newidiol posib yn sgil Brexit.
85. Cefnogi sefydliadau a grwpiau cymunedol i hyrwyddo a hybu'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin, o sioeau amaethyddol, gwyliau a charnifalau i arddangosfeydd, cyngherddau a pherfformiadau.
86. Sicrhau bod y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
87. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, gan gynnwys ystyried y pum ffordd o weithio ym mhopeth a wnawn.
88. Cyflawni Strategaeth Trawsnewid Digidol y Cyngor i gefnogi gweithio ystwyth a mynediad digidol i drigolion drwy gyfleusterau wi-fi cyhoeddus a chyfleusterau ar-lein 'Fy Nghyfrif'.
89. Datblygu ymhellach y seilwaith TGCh a'r gefnogaeth i ysgolion y Sir fel y gellir bodloni'r holl ofynion o ran addysg ddigidol.
90. Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r holl ofynion o ran seiber-ddiogelwch er mwyn cyfnerthu systemau mewnol y staff ac i barhau i ddarparu gwasanaethau allanol i drigolion.
91. Sicrhau fod y Cyngor yn gweithio tuag at fod yr un mwyaf agored a thryloyw yng Nghymru drwy ddatblygu ein gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â thrigolion.
92. Sicrhau fod y Cyngor yn cefnogi staff yn llawn i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith a, lle bydd angen, sicrhau rheolaeth ofalus ar absenoldeb salwch staff er budd y staff a darparu gwasanaethau.

# Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol a pharhaus o ran y gyllideb ac mae sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn bwysicach nag erioed. Gallai cyflwyno Credyd Cynhwysol ar draws y Sir o fis Mawrth 2018 gael effaith sylweddol ar drigolion ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod y rhai y mae hyn yn effeithio arnynt yn cael cymorth priodol.

**Yn ogystal â gwasanaethau presennol ein bwriad yw i:**

93. Sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cymorth i'r bobl sy'n hawlio budd-daliadau ar hyn o bryd ac a fydd yn symud i Gredyd Cynhwysol o fis Mawrth 2018 ymlaen.
94. Sefydlu pa mor ddichonadwy yw datblygu gwasanaeth caffael ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro.
95. Parhau i sicrhau fod yr holl staff yn cael eu trin yn deg ac â pharch yn ogystal â gweithio tuag at gyflwyno Cyflog Byw Cymru ar gyfer y staff hynny sydd ar fandiau cyflog is.
96. Sicrhau fod y Cyngor yn rheoli ei gyllidebau'n effeithiol ac yn ddoeth.

DRAFT